

**CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL  
COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWDYD 13/5/2019 YNG  
NGHANOLFAN YR HENOED AM 7pm / MINUTES OF MEETING HELD  
ON 13/5/2019 AT 7Ppm AT THE PENSIONERS' HALL**

|   |  |
|---|--|
| <b>PRESENNOL:</b> Cadeirydd Mrs Edna Jones, Is-gadeirydd Mrs Sharon Jones, Mrs C Parry, Ms M E Evans, Mrs A E Williams, Mr R G Parry a Mr G Williams.   | <b>PRESENT:</b> Chairman Mrs Edna Jones, Vice Chairman Mrs Sharon Jones, Mrs C Parry, Ms M E Evans, Mrs A E Williams, Mr R G Parry and Mr G Williams.  |
| <b>1. Croeso ac ymddiheuriadau.</b>   | <b>1. Welcome and apologies</b>  |
| Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. Darllenwyd llythyr o ymddiswyddiad oddi wrth Mrs Nia Dooley. Derbyniwyd ei hymddiswyddiad a gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Mrs Dooley i ddiolch iddi am ei chyfraniad ac i ddymuno'n dda iddi hi a'r teulu i'r dyfodol..   | The Chairman welcomed all to the meeting. A letter of resignation from Mrs Nia Dooley was read. Her resignation was accepted and the Clerk was requested to write to Mrs Dooley to thank her for her contribution and to wish her and her family well in the future.   |
| <b>2. Datganiadau Diddordeb.</b>  | <b>2. Declarations of Interest.</b>  |
| Dim.  | None.  |
| <b>3. Cadarnhau cofnodion 01/04/2019</b>  | <b>3. Ratify minutes 01/04/2019</b>  |
| Derbyniwyd a chadarnhawyd yn gywir cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 1 Ebrill, 2019. Mrs C Parry yn cynnig a Ms M E Evans yn eilio.  | The minutes of the meeting held on 1 April 2019 were ratified and accepted as a true record of the meeting. Proposed by Mrs C Parry, seconded by Ms M E Evans.   |
| <b>4. Materion yn codi:</b>   | <b>4. Matters arising:</b>   |
| (a) Arwyddbost at yr Eglwys.  | (a) Signpost for the Church.   |
| Y Cynghorydd R G Parry wedi gwneud cais yn y Cyngor Sir am 2 arwyddbost, ond ddim yn ffyddiog y byddai rhai yn cael eu gosod oherwydd y gost ynghlwm a gosod arwyddion newydd. Awgrymodd Mrs Sharon Jones y gallai gosod arwyddion ar y rhai sydd ar y safleoedd yn barod fod yn llai costus ac felly penderfynwyd gofyn i Mr Parry drafod y mater ymhellach gyda'r Cyngor Sir. | Councillor R G Parry had made a request to the County Council for 2 signposts but was not hopeful that signposts would not be forthcoming due to the cost attached to erecting new signposts. Mrs Sharon Jones suggested that positioning signposts on the signposts that already existed could be a lesser cost and therefore it was decided to ask Mr Parry to discuss the matter further with the County Council. |
| <b>5. Gohebiaeth:</b>   | <b>5. Correspondence:</b>  |
| <b>(i) Un Llais Cymru:</b>  | <b>(i) One Voice Wales:</b>  |
| (a) Llythyr Croeso. Derbyn er gwybodaeth.   | (a) Welcome letter. For information.   |
| (b) Sesiynau Hyfforddi mis Mai, Mehefin a Gorffennaf yn siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Llangefni. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.   | (b) Training sessions for May, June and July to be held at the Council Chambers, Shire Hall, Llangefni. Discussed and accepted for information,  |
| (c) Cynigion ar gyfer Cyfarfod  | (c) Motions for AGM 2019. For  |

|   |  |
|---|--|
| Cyffredinol Blynyddol 2019. Derbyn er gwybodaeth.   | information.   |
| (d) Digwyddiad Rhwydweithio / Cynhadledd ar y cyd rhwng Un Llais Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru 11/6/19 yn Llanrwst. Neb yn rhydd i fynd i'r digwyddiad.  | (d) Joint One Voice Wales and Planning Aid Wales Network Event/Conference 11/6/2019 at Llanrwst. No one free to attend the event.  |
| (e) Digwyddiad ar y Cyd rhwng Un Llais Cymru/SLCC 15/5/2019 yn Abertawe. Neb yn rhydd i fynd i'r digwyddiad.  | (e) One Voice Wales/SLCC Joint Event 15/1/2019 at Swansea. No one free to attend the event.  |
| (f) Canllawiau a pro forma ar gyfer Taliadau i Aelodau Cynghorau Cymuned a Thref. Gan fod llythyrau oddi wrth y Cynghorwyr yn gwrthod taliadau wedi'u derbyn yn barod, penderfynwyd peidio defnyddio'r pro forma tan y flwyddyn ariannol 2020/21.                                       | (f) Guidance and pro forma on Payments to Members of Community and Town Councils. As letters from the Councillors rejecting any payments had already been received, it was decided not to use the pro forma until financial year 2020/21.  |
| (g) Papur Pleidleisio ar gyfer enwebu aelod ar Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd enwebu Janet Hilton.   | (g) Ballot Paper for nominating a member to the Betsi Cadwaladr Health Board Stakeholder Reference Group. The matter was discussed and it was decided to nominate Janet Hilton.  |
| <b>(ii) Cyngor Sir Ynys Môn:</b>  | <b>(ii) Isle of Anglesey County Council:</b>   |
| (a) Copi o gofnodion Fforwm Cyswllt 14/3/2019 a dyddiad y cyfarfod nesaf, sef 18/7/2019. Derbyn er gwybodaeth.  | (a) Copy of minutes of Liaison Forum meeting 14/3/2019 and date for next meeting – 18/7/2019. For information.   |
| (b) Ymgynghoriad cynllunio FPL/2018/42. Manylion a gwybodaeth bellach yng nghyswllt y bwriad i godi 8 o anheddau marchnad a 2 annedd fforddiadwy, creu mynedfa newydd a ffordd i gerbydau ynghyd a gwaith tirlunio medal a chaled ar dir ger Stad Llain Delyn. Trafodwyd. Dim sylwadau. | (b) Planning Consultation FPL/2018/42. Additional/information/details in respect of proposed full application for erection of 8 market and 2 affordable dwellings, construction of a new vehicular access and road together with soft and hard landscaping on land adjacent to Llain Delyn Estate. Discussed. No comments. |
| (c) Rhif cais cynllunio FPL/2019/80. Cais llawn ar gyfer dymchwel dau adeilad ynghyd a chodi annedd a storfa ar wahân ar dir ger Ty'n Ffynnon. Trafodwyd. Dim sylwadau.   | (c) Planning Applic No. FPL/2019/80. Full application for demolition of two buildings together with the erection of a dwelling and detached storeroom on land adjacent to Ty'n Ffynnon. Discussed. No comments.  |
| (d) Rhif cais cynllunio HHP/2019/113. Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Glyn Derw. Trafodwyd. Dim sylwadau.   | (d) Planning Applic No. HHP/2019/113. Full application for alterations and extensions at Glyn Derw. Discussed. No comments.  |
| (e) Adroddiad - Adolygiad y Pwyllgor Safonau ar gofrestrau diddordeb yr aelodau. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth. Gofynnwyd i'r Clerc anfon copi o'r cofnodion hyn fel y gofynnwyd at Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.  | (e) Report – Standard Committee's Review of Registers of members' interests. Discussed and accepted for information. The Clerk was asked to forward a copy of these minutes as per request to the Chairman of the Standards  |

|   |   |
|---|---|
|   | Committee.  |
| (f) Hyfforddiant a Datblygiad ar gyfer Cynghorwyr a Chlercod Cynghorau Cymuned a Thref ynghyd ag adroddiadau a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch dau o Gynghorau Cymuned ar Ynys Môn. Trafodwyd, ac er mwyn i'r Cynghorwyr gael amser digonol i ystyried y mater hwn, penderfynwyd ei drafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. | (f) Training and Development for Town and Community Councillors and Clerks together with report published by Wales Audit Office regarding two Community Councils on Anglesey. Matter discussed, and in order to give the Councillors sufficient time to consider this matter, it was decided to discuss the matter further at the Council's next meeting. |
| (g) Cynghorau Cymuned a Thref - Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru (PDO) ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC). Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.  | (g) Town and Community Councils – Decisions of Adjudication Panel for Wales (APW) and Public Services Ombudsman for Wales (PSOW). Discussed and accepted for information.   |
| <b>(iii) Elusen William Bold.</b><br>Yn dilyn ymddiswyddiad Mrs Helen Williams, y Cyngor i ddewis cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned ar bwyllgor Elusen William Bold. Penodwyd Ms M E Evans. Y Clerc i anfon yr wybodaeth at Ysgrifennydd Elusen William Bold.  | <b>(iii) William Bold Charity.</b><br>Following Mrs Helen Williams's resignation, the Council to elect a representative from the Community Council to serve on the William Bold Charity committee. Ms M E Evans was appointed. The Clerk to pass on the information to The Secretary of the William Bold Charity.   |
| <b>(iv) Sefydliad RAFA.</b> Angen gweithwyr achos gwirfoddol. Neb a diddordeb.  | <b>(iv) RAFA Association.</b> Request for Volunteer caseworkers. No one interested in becoming a volunteer.   |
| <b>(v) Llywodraeth Cymru.</b> Treuliau Cynghorwyr 2018/19. Y Clerc wedi anfon yr wybodaeth ofynnol yn dangos nad oedd unrhyw dreuliau wedi'u talu i Gynghorwyr y Cyngor Cymuned. .  | <b>(v) Welsh Government.</b> Councillors' Allowances 2018/19. The Clerk has forwarded the necessary information showing that no allowances were paid to the Community Council's Councillors.  |
| <b>(vi) Menter Môn.</b> Adroddiad Blynyddol 2018. Derbyng er gwybodaeth.  | <b>(vi) Menter Môn.</b> Annual Report 2018. For information.  |
|   |   |
| <b>6. Materion ariannol</b>   | <b>6. Financial matters</b>   |
| (a) Praesept cyntaf wedi'i dderbyn o'r Cyngor Sir - £2833.34. Ad-daliad TAW 2018/19 wedi'i dderbyn.   | (a) First praecept received from County Council - £2833.34. VAT repayment 2018/19 also received.  |
| (b) Anfonebau fel a ganlyn: <b>Npower £22.88</b> (wedi'i dalu drwy ddebyd uniongyrchol); <b>Gareth Griffiths £60.00</b> am gyflenwi a gosod dau fwlb LED yn y cloc; <b>I.G.Jones £120.00</b> am wasanaethau PAYE; <b>Zurich £509.83</b> adnewyddu yswiriant y Cyngor. Penderfynwyd i'r Clerc dalu'r anfonebau.                                      | (b) Invoices as follows: <b>Npower £22.88</b> (paid by direct debit); <b>Gareth Griffiths £60.00</b> supplying and fix 2 LED bulbs in the clock; <b>I.G.Jones £120.00</b> PAYE services; <b>Zurich £509.83</b> renewal of Council's Insurance. It was decided that the Clerk pay the invoices.  |
|   |   |
| <b>7. Unrhyw fater arall yn ôl doethineb y</b>  | <b>7. Any other matter</b> at the Chairman's  |

|  |   |
|--|---|
| <p>Cadeirydd.</p> <p>(a) Llwybrau Cyhoeddus. Yn ôl yr arfer, Mrs Sharon Jones i drefnu'r daith gerdded flynyddol o gwmpas llwybrau cyhoeddus y pentref.</p>  | <p>discretion.</p> <p>(a) Public footpaths. As is the custom, Mrs Sharon Jones to arrange the annual walk around the village's public footpaths.</p>  |
| <p>(b) Llwybr Cyhoeddus Ty'n Corniog. Mrs Sharon Jones yn dod i sylw'r Cyngor bod y Japanese Knotweed yn dal i fod yn broblem ar hyd y llwybr. Penderfynwyd i'r Cynghorydd Bob Parry ddod a'r mater i sylw'r Cyngor Sir unwaith eto.</p> | <p>(b) Ty'n Corniog Public footpath. Mrs Sharon Jones advised the Council that the Japanese Knotweed is still proving a problem along the footpath. It was decided that Councillor Bob Parry bring this matter to the attention of the County Council once again.</p> |
| <p>(c) Baw Ci . Dywedodd Mrs Sharon Jones bod hyn yn broblem ar hyd sawl ffordd yn y pentref. Penderfynwyd i'r Cynghorydd Bob Parry riportio hyn i'r Cyngor Sir.</p>   | <p>(d) Dog mess. Mrs Sharon Jones stated this was a problem along a number of the roads in the village. It was decided that Councillor Bob Parry reports this to the County Council.</p>  |
| <p><b>8. Pennu dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf.</b> Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun 10 Mehefin 2019 at 7pm yng Nghanolfan yr Henoed.</p>   | <p><b>8. Fix a date for the next meeting.</b> The next meeting will be held on 10 June 2019 in the Pensioners Hall at 7pm.</p>  |
| <p><b>Daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm.</b></p>  | <p><b>The meeting concluded at 8.30pm.</b></p>  |